O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2025 Rhif 1131 (Cy. 188)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn yr A40 (Llanddewi Felffre i Redstone Cross, Sir Benfro) a Ffyrdd Ymyl (Gwahardd Troi i'r Dde, Terfynau Cyflymder 20 mya, 30 mya, 40 mya a 50 mya a Dileu Cyfyngiadau) 2025

Gwnaed	*28 Hydref 2025*
Yn dod i rym	*29 Hydref 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o'r A40 y tynnwyd ei statws cefnffordd sy'n rhedeg i'r de ac i'r gogledd o gefnffordd yr A40 a'r ffyrdd ymyl, ac yn gyfochrog â hwy, a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2)(a), 82(2)(a), 83(1), 84(1)(a) a (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adrannau 83(1) a 84(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Llanddewi Felffre i Redstone Cross, Sir Benfro) a Ffyrdd Ymyl (Gwahardd Troi i'r Dde, Terfynau Cyflymder 20 mya, 30 mya, 40 mya a 50 mya a Dileu Cyfyngiadau) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Hydref 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "yr A40 y tynnwyd ei statws cefnffordd" ("*de-trunked A40*") yw'r A40 y tynnwyd ei statws cefnffordd sy'n rhedeg i'r de ac i'r gogledd o gefnffordd yr A40, ac yn gyfochrog â hi;

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cerbytffordd" ("*carriageway*") yw ffordd draffig sy'n ffurfio priffordd neu wedi ei chynnwys mewn priffordd, gan ei bod yn ffordd (ac eithrio llwybr beicio) y mae gan y cyhoedd hawl tramwy drosti ar gyfer tramwyo cerbydau;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun; ac

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd, neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwahardd Troi i'r Dde

3. Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd droi i'r dde ar y darnau o'r ffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

Cyfyngiadau

4. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darnau o'r ffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r ffyrdd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn**.**

6. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r ffyrdd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r ffyrdd a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

Dileu Cyfyngiadau

8. Bydd y darnau o'r ffyrdd a bennir yn Atodlen 6 i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984.

Dirymu

9. Mae Gorchymyn Cefnffordd (yr A40) (Llanddewi Felffre, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 1999(**1**); Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Llanddewi Felffre, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 50MYA) 2004(**2**)**,** a Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Redstone Cross, Sir Benfro) (Dileu Cyfyngiad) 2005(**3**) drwy hyn wedi eu dirymu.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

(**1**) O.S. 1999/465.
(**2**) O.S. 2004/3053 (Cy. 262).
(**3**) O.S. 2005/3369 (Cy. 266).

Dyddiedig 28 Hydref 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1
Gwahardd Troi i'r Dde

Y ffordd ymyl newydd sy'n cysylltu â'r A40 y tynnwyd ei statws cefnffordd i'r de o'r gefnffordd ac i'r gorllewin o Landdewi Felffre wrth Gyffordd Orllewinol Llanddewi Felffre, i gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd.

Y ffordd ymyl i'r de o'r gefnffordd sy'n ymadael â'r B4313 Redstone Road i'r de o'r gefnffordd wrth Gyffordd Redstone Cross i gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd.

ATODLEN 2
Terfyn Cyflymder 20mya

Y darn hwnnw o'r A40 y tynnwyd ei statws cefnffordd i'r de o'r gefnffordd o'i chyffordd â'r ffordd gysylltu newydd o Gylchfan Dwyreiniol Llanddewi Felffre yn gyfagos i'r eiddo o'r enw Croft House am 224 o fetrau tua'r gogledd-ddwyrain hyd at bwynt yn gyfagos i'r mynediad cae i'r de o Gylchfan Ddwyreiniol Llanddewi Felffre.

Y darn hwnnw o'r A40 y tynnwyd ei statws cefnffordd i'r de o'r gefnffordd ac i'r gorllewin o Landdewi Felffre o bwynt 477 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â'r gefnffordd wrth Gyffordd Orllewinol Llanddewi Felffre hyd at bwynt 132 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â'r gefnffordd wrth Gyffordd Orllewinol Llanddewi Felffre.

Y darn hwnnw o'r C3205 yn Llanddewi Felffre i'r de o'r gefnffordd o bwynt 150 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r A40 y tynnwyd ei statws cefnffordd hyd at bwynt 201 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r A40 y tynnwyd ei statws cefnffordd.

ATODLEN 3
Terfyn cyflymder 30 mya

Y darn hwnnw o'r ffordd gysylltu newydd i'r de o'r gefnffordd o bwynt 52 o fetrau i'r de-orllewin o ganol Cylchfan Dwyreiniol Llanddewi Felffre hyd at bwynt 90 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r mynediad i'r eiddo o'r enw Glenfield, a fesurir ar hyd llinell ganol yr C3205.

Y darn hwnnw o'r A40 y tynnwyd ei statws cefnffordd i'r de o'r gefnffordd ac i'r gorllewin o Landdewi Felffre a ffordd newydd, o bwynt 132 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â'r gefnffordd wrth Gyffordd Orllewinol Llanddewi Felffre hyd at ei chyffordd â'r gefnffordd wrth Gyffordd Orllewinol Llanddewi Felffre.

Y darn hwnnw o'r A40 y tynnwyd ei statws cefnffordd sy'n rhedeg i'r de o'r gefnffordd, ac yn gyfochrog â hi, o'r mynediad i Ardal Orffwys a reolir Llywodraeth Cymru hyd at bwynt 19 o fetrau i'r dwyrain o'r mynediad i Ardal Orffwys a reolir Llywodraeth Cymru.

Y darn hwnnw o'r A40 y tynnwyd ei statws cefnffordd i'r gogledd o'r gefnffordd a ffordd bresennol y B4313 Redstone Road i'r gogledd ac i'r de o'r gefnffordd o bwynt 214 o fetrau i'r gogledd o ganol trosbont Redstone Road hyd at bwynt 736 o fetrau i'r de o ganol trosbont Redstone Road.

Y darn hwnnw o ffordd ymyl ddiddosbarth i'r gogledd o'r gefnffordd o'i chyffordd â'r B4313 sy'n gyfagos i'r eiddo o'r enw 2 Redstone Cottages hyd at bwynt 40 o fetrau i'r de o'r gyffordd â'r B4313.

Y darn hwnnw o'r A40 y tynnwyd ei statws cefnffordd a'r B4313 i'r gogledd o'r gefnffordd o'i chyffordd â'r B4313 Redstone Road yn gyfagos i'r eiddo o'r enw Redstone Farm, 92 o fetrau i'r gogledd o ganol trosbont Redstone Road tua'r gorllewin hyd at bwynt 147 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â'r B4313 Redstone Road.

Y darn hwnnw o'r ffordd ymyl i'r de o'r gefnffordd o'i chyffordd â'r B4313 Redstone Road, 40 o fetrau i'r de o Drosbont Redstone Road yn gyfagos i'r eiddo o'r enw Blaenmarlais Care Home hyd at bwynt 163 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â'r B4313 Redstone Road.

ATODLEN 4
Terfyn cyflymder 40 mya

Y darn hwnnw o'r A478 i'r de o'r gefnffordd o bwynt 50 o fetrau i'r de o ganol Cylchfan Penblewin hyd at bwynt 320 o fetrau i'r de o ganol Cylchfan Penblewin.

Y darn hwnnw o'r A478 i'r gogledd o'r gefnffordd o bwynt 50 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Penblewin hyd at bwynt 350 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Penblewin.

Y darn hwnnw o'r A40 y tynnwyd ei statws cefnffordd i'r gogledd o'r gefnffordd o bwynt 50 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganol Cylchfan Penblewin hyd at

bwynt 1186 o fetrau i'r de-orllewin o ganol Cylchfan Penblewin.

ATODLEN 5
Terfyn Cyflymder 50 mya

Y darn hwnnw o'r A478 i'r gogledd o'r gefnffordd o bwynt 350 o fetrau i'r gogledd o ganol Cylchfan Penblewin hyd at bwynt sydd oddeutu 159 o fetrau i'r de o'i chyffordd croesffordd â'r C3221 a'r C3034.

ATODLEN 6
Dileu cyfyngiad ar ddarnau o'r gefnffordd

Y ffordd ymyl ddiddosbarth o bwynt 36 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganol Cylchfan Dwyreiniol Llanddewi Felffre hyd at bwynt 94 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganol Cylchfan Dwyreiniol Llanddewi Felffre.

Y ffordd ymyl ddiddosbarth o bwynt 36 o fetrau i'r de-orllewin o ganol Cylchfan Dwyreiniol Llanddewi Felffre hyd at bwynt 52 o fetrau i'r de-orllewin o ganol Cylchfan Dwyreiniol Llanddewi Felffre.